5.225

## BARDDONIAETH.

### Y DDYLLUAN A'R DYDD.

"Pw-pw! Tw-hw!"
Ebe'r ddylluan henllwyd a thruan
Wrth gau ei llygaid rhag pelydr euraid
Y wawr ar ei hynt i'r nef;
"Pw-pw! Tw-hw!
Gwell im' dywyllwg hirnos mewn iorwg
Nâ gwantan leufer a lif yn ofer
I foedro pob gwlad a thref.
"Pw-pw! Tw-hw!
Pam y daw'r huan i'm poeni, ddylluan
Fwyty'i llygoden yma'n ei cheubren
Yn iawn heb ei wenau ef?

"Pw-pw! Tw-hw!
Dolur i'm llygaid crynion a gweiniaid
Yw gwawr heb ei heisieu—paham y myn goleu
Ymwthio fel hyn ar fyd?
"Pw-pw! Tw-hw!
Wfft i ysgewndid dydd â'i ieuenctid
Yn deffro'r adar i ganu a chlochdar,
A minnau am hedd o hyd!
"Pw-pw! Tw-hw!
Megis i'm neinau, felly i minnau,
Y lloer yw'r huan, a'i llewyrch hoywan
Yw mwynddydd fy ngheubren clyd."

. . . . . . . . . . .

Ond llamu mewn afiaith mae llanw'r wawr,
A pherlio ei filffyrdd rhwng nef a llawr,
A dydd yw dydd
Bob bore rhudd,
Er chwerwed "Pw-pw!"
Ac uched "Tw-hw!"
Dylluan gibddall y ceubren mawr.

Ifano.

---

O'r "Welsh Outlook"
am Chwef., 1917.

ac
O'r "Cardiff Times" am Fawrth 3, 1917.

XRCS 24 B136